Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



# Swyddog Cydymffurfiaeth

## Tîm Diogelwch Ardal

**Pecyn Gwybodaeth Recriwtio**

# Cynnwys

Croeso gan Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol . . . . 3
Pwy ydym ni. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 4
Gogledd Cymru; Lle i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef 6
Y Rôl . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 7
Gallwn gynnig i chi . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 8
Disgrifiad Swydd . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 9
Manyleb y Person . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 12
Sgiliau Cymraeg . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 14
Sut i ymgeisio. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 15



# Croeso gan Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol



Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, byddant yn tueddu i feddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i alwadau brys, ac er bod hyn yn wir, mae eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lawer ehangach na'r delweddau traddodiadol hyn.

Yn ogystal â Diffoddwyr Tân, cyflogir pobl mewn amrywiaeth o rolau heriol ac amrywiol, ac mae'r gwaith hanfodol a wneir tu ôl i'r llen yr un mor hanfodol i sicrhau fod Gogledd Cymru'n ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.

Rydym yn deall gwerth atal yn y lle cyntaf ac mae ein timau Diogelwch Tân yn gwneud llawer iawn o waith i amddiffyn pobl ac eiddo Gogledd Cymru drwy ostwng nifer yr achosion o dân a'i effeithiau.

Mae ein timau diogelwch y gymuned yn cynnal archwiliadau diogel ac iach mewn cartrefi yn y cymunedau, gan sicrhau bod aelodau bregus ein cymunedau'n derbyn cyngor a chefnogaeth i gadw'n ddiogel, tra bod ein timau diogelwch tân ar gyfer busnesau yn cynnal archwiliadau diogelwch mewn busnesau ac eiddo dibreswyl yn y rhanbarth. Ond yr un pwrpas sydd gan y ddau dîm, sef cadw pobl yn ddiogel.

Mae ein timau Diogelwch Tân yn teimlo'n angerddol am ddiogelwch a chymerant gamau gweithredol i roi gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth i atal tanau, a'r colli bywyd a'r anafiadau mewn cartrefi a gweithleoedd.

Ein gwerthoedd crai yw ymgyrraedd at ragoriaeth, gan wasanaethu cymunedau Gogledd Cymru a thrin pobl yn dda. Rydym yn awyddus i gael pobl sydd â'r un gwerthoedd i ymuno â'n tîm i'n helpu i wneud Gogledd Cymru'n ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.

# Pwy ydym ni

Diben Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw Atal, Amddiffyn, ac Ymateb. I wneud hyn, rydym yn cyflogi dros 850 o staff mewn swyddi gweithredol a chefnogol.

Rydym yn helpu i ddiogelu ardal o ryw 2,400 milltir sgwâr, sydd â phoblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl yn ogystal â channoedd o filoedd o ymwelwyr sy’n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydym yn mynd i tua 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau nad ydynt yn danau, fel gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a llifogydd, bob blwyddyn. Rydym hefyd yn ymateb i tua 2,000 o alwadau brys sy’n alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith helaeth i atal tân, a hynny trwy ymweld â phobl yn eu cartrefi, mynd i ddigwyddiadau, ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu ac i hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb prysur yn y cyfryngau, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

Rhan arall o’n gwaith yw rôl gorfodi diogelwch tân, felly rydym yn ymweld â busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy’n gyfrifol am y safleoedd hynny’n cadw eu trefniadau diogelwch tân at y safon ofynnol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio ynddo. Mae yma ddiwylliant cefnogol ac rydym yn gweithio’n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.




Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf.

Am fwy o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

# Ein Gwerthoedd Craidd

GWNEUD GOGLEDD CYMRU'N LLE MWY DIOGEL I FYW, GWEITHIO AC YMWELD AG O

## Gwasanaethu'r gymuned

**Mae amddiffyn ein cymunedau'n ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy weithio gyda'n partneriaid a grwpiau eraill i leihau risg a bod yn atebol i'r bobl yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

## Ymdrechu dros ragoriaeth

**Rydym ni bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau glas ym mhopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy fod yn arloesol a phen agored, croesawu adborth gan eraill, dysgu o brofiad, cydnabod cryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu.

## Pobl

**Rydym ni'n gwerthfawrogi'n gilydd -**

trwy arfer tegwch a pharch, cefnogi datblygiad personol, cydnabod teilyngdod, ymrwymo i onestrwydd, cywirdeb a chyd ymddiriedaeth.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydym ni'n galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau -**

trwy werthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, herio rhagfarn a chamwahaniaethu.



# Gogledd Cymru; Lle i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef

Mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i’w gynnig, p’un a ydych yn chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru’n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy’n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy’n cael ei hystyried yn un o’r lleoedd mwyaf prydferth yn y Deyrnas Unedig, lawer i’w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy’n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae rhywbeth i bawb ei fwynhau. Mae twristiaeth yn cyfrannu’n fawr at yr economi leol gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu’r gwahanol ymwelwyr i’r ardal bob blwyddyn, o linellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr i deithiau cerdded mwy hamddenol i archwilio trefi a chefn gwlad neu ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Tra bod Gogledd Cymru yn agos at natur ac â mannau agored cyfagos, y mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr yng Ngogledd-Orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y Deyrnas Unedig, gyda threnau uniongyrchol i Lundain (mewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd ffermwyr yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a’r diodydd gorau sydd gan Gymru i’w cynnig. Mae digonedd o leoedd bwyta yn defnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, gan gynnwys pysgod sydd newydd eu dal, cig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, gyda rhywbeth i weddu i bawb, gan gynnwys bwytai ysblennydd, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o’r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae’r Cymry’n llawn angerdd am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae Eisteddfodau sy’n llawn cerddoriaeth, barddoniaeth a chelf yn cael eu cynnal yn flynyddol. Maent yn cynnig llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o’r Eisteddfod, mae’r digwyddiadau’n gynhwysol i bawb felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i allu ymweld a mwynhau’r diwrnod. Anogir pobl o bob oed a gallu, gan gynnwys dysgwyr Cymraeg, i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gyda’r Eisteddfod Ryngwladol yn Llangollen yn cael ei chynnal yn flynyddol ym mis Gorffennaf, gan ddod â chyfranogwyr o bob cwr o’r byd at ei gilydd i ddathlu’r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a’r celfyddydau mewn un lle.

# Y Rôl



Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae pawb yn cyfrannu mewn rhyw ffordd i helpu i amddiffyn ein cymunedau a'r amgylchedd naturiol.

Fel Swyddog Cydymffurfio, byddwch yn rhan o'r tîm Diogelwch Tân ac yn defnyddio'ch gwybodaeth arbenigol i helpu i sicrhau ein bod yn cadw ein cymunedau'n ddiogel.

Gan adrodd i'r Rheolwr Cydymffurfio, byddwch yn gyfrifol am gynnal ystod o archwiliadau ac arolygon o adeiladau o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (RR(FS)O) a deddfwriaeth berthnasol arall. Fel Swyddog Cydymffurfio, byddwch yn cwblhau'r holl adroddiadau, hysbysiadau cyfreithiol, cofnodion a gwaith gweinyddol angenrheidiol i wella sut rydym yn cydymffurfio â diogelwch tân.

Bydd disgwyl i chi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant datblygiad technegol a phrosesu a allai fod yn ofynnol er mwyn bod yn gymwys i gynnal archwiliadau ac arolygon a'r holl dasgau cysylltiedig eraill.

Fel Swyddog Cydymffurfio, byddwch yn cynnal asesiadau risg tân o adeiladau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac yn cysylltu ag adrannau eraill ar draws y Gwasanaeth i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n gyfreithiol ag RR(FS)O.

Mae'r rôl hon hefyd yn gofyn cysylltu ac ymgynghori â'r Awdurdod Lleol a phersonau a chyrff penodedig eraill i wella ein cydymffurfedd â deddfwriaeth diogelwch tân. Yn ogystal, mae'n gofyn ymchwilio i gwynion a / neu droseddau sy'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelwch tân a chynorthwyo mewn unrhyw ymchwiliadau sy'n deillio o hynny.

Wrth i'ch gyrfa ddatblygu, bydd disgwyl i chi hefyd gynorthwyo i fentora Swyddogion Cydymffurfio sy'n newydd i'r adran.

# Gallwn gynnig i chi

## Tal

Gradd NWFRS 05

Tal: Cychwyn ar  £29,064 gan godi i £31,022 y flwyddyn

## Oriau gwaith

Mae'r swydd hon ar sail 37 awr yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Gwener ond fe gynigwn gryn hyblygrwydd ac rydym yn ymdrechu gymaint ag y gallwn i gefnogi staff i gael cydbwysedd rhwng bywyd gwaith a chartref. Yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno polisi gweithio ystwyth i hyrwyddo gweithio rhithiol ac yn y cartref lle bo'n ymarferol ac fe fyddwn yn trafod hyn gyda chi yn y cyfweliad.

## Buddion y swydd

- Hawl gwyliau blynyddol hael, yn dechrau ar 25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â gwyliau cyhoeddus
- Cynllun Oriau Hyblyg sy'n galluogi staff i weithio'n hyblyg
- Darperir gwisg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad at Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y mae'r cyflogwr yn cyfrannu ato
- Byddwn yn rhoi hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i chi er mwyn datblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, gan gynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithwyr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapïau corfforol a mynediad i gampfeydd y Gwasanaeth
- Amrywiaeth o fuddion ychwanegol megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad at ostyngiadau gan gannoedd o fanwerthwyr a darparwyr hamdden a gwasanaethau.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Swyddog Cydymffurfiaeth |
| **Adran** | Swyddfeydd Diogelwch Ardal |
| **Atebol i** | Rheolwr Cydymffurfiaeth |
| **Lleoliad** | Amrywiol |

## Pwrpas Cyffredinol y Swydd

Cyflwyno a gorfodi Diogelwch Tân i Fusnesau, i lefel a bennir gan gymhwysedd a graddfa deiliad y swydd, mewn ardal arbennig o fewn ffiniau daearyddol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Cynnal ystod o archwiliadau ar safleoedd sy'n disgyn o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 i'r lefel sydd ei angen gan Swyddog Cydymffurfiaeth.
2. Cwblhau'r holl adroddiadau angenrheidiol, rhybuddion cyfreithiol, cofnodi TG a gweinyddiaeth mewn perthynas â phwynt 1 uchod.
3. Ymgymryd â datblygiadau a phrosesau thechnegol penodol er mwyn dod yn gymwys i wneud archwiliadau fel yr amlinellir ym mhwynt 1 uchod, a'r holl dasgau cysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys ennill Tystysgrif Lefel 4 mewn Diogelwch Tân (Archwilwyr Tân) a Thystysgrif Cenedlaethol Diogelwch a Rheoli Risg NEBOSH.
4. Cysylltu ag ymgynghori gyda'r Awdurdod Lleol a phersonau a chyrff eraill i ddibenion gwella cydymffurfiaeth diogelwch tân.
5. Rhoi cyngor a gwybodaeth glir a chywir i Bersonau Cyfrifol ac aelodau o'r cyhoedd mewn perthynas â'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio yn unol â chod y Rheoleiddiwr i osgoi baich reoleiddio dianghenraid ac asesu pa un ai a oes modd llai beichus o sicrhau diogelwch.

6. Blaenoriaethu a rheoli llwyth gwaith a sicrhau cwrdd ag unrhyw ddyddiadau cau.

7. Bod yn atebol i, a chymryd cyfarwyddyd gan Reolwr Cydymffurfiaeth yr Ardal a/neu unrhyw berson a enwebir fel mentor i'r Swyddog Cydymffurfiaeth.

8. Cymryd rhan yn ystod cyfarfodydd ac archwiliadau rheoli perfformiad Diogelwch Tân i Fusnesau.

9. Mynychu gwrandawiadau a'r Llys Ynadon a'r Goron i ddilyn achosion sy'n berthnasol gyda gweithrediadau gorfodi neu gyfreithiol y Gwasanaeth o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) a deddfwriaeth gysylltiedig.

10. Edrych am ganllaw ar unrhyw fater Diogelwch Tân i Fusnesau sydd angen iddo ef/hi ymdrin ag ef sy'n syrthio tu allan neu tu hwnt i'w gymhwyster/chymhwyster cyfredol.

11. Mynychu cyrsiau neu gyfleoedd datblygu y bydd y Swyddog Cydymffurfiaeth yn cael ei (h)enwebu ar eu cyfer i wella ei g(ch)ymhwysedd cyffredinol.

12. Cynorthwyo i fentora Swyddogion Cydymffurfio newydd.

13. Ymchwilio i gwynion/droseddau yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth diogelwch tân a chynorthwyo yn ystod y broses ymchwilio.

14. Cwblhau asesiadau risgiau tân ar safleoedd GTAGC a chydlynu gydag adrannau eraill i hwyluso cydymffurfiaeth gyda'r Gorchymyn.

15. Cydymffurfio gyda rheoliadau'r Gwasanaeth ac ymddwyn mewn modd sy'n gyson gydag amcanion a gwerthoedd craidd y Gwasanaeth wrth ddelio gyda chydweithwyr, cyd-reolwyr a chleientiaid.

## Cysylltiadau y tu Allan i Adran y Swydd

Bydd disgwyl i'r swyddog cydymffurfiaeth gydlynu'n rheolaidd gydag awdurdodau rheoleiddio eraill yn cynnwys yr awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, AGC, GIG Cymru a HSE fel y bo hynny'n briodol.

## Gofynion Iaith

Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg – Lefel 4 – siarad a gwrando – mynnir eich bod yn gallu;

Cynnal sgwrs estynedig hamddenol ynglŷn â gwaith neu roddi cyflwyniad gyda lefel dda o rwyddineb ac amrywiaeth mynegiant ond efallai y bydd angen troi i iaith arall i ateb cwestiynau na ddisgwyliwyd neu i esbonio pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol. Cyfrannu'n effeithiol i gyfarfodydd a seminarau yn eich maes gwaith chi.

## Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

DBS Safonol

## Hyfforddiant Hanfodol

Bydd yn rhaid i ddeilydd y swydd gwblhau rhaglen datblygu ar gyfer swyddogion cydymffurfiaeth sydd yn cynnwys cwblhau'r canlynol yn llwyddiannus;

Cwrs rheoli diogelwch tân NEBOSH a Tystysgrif Lefel 4 mewn Diogelwch Tân.

## Arall

Wedi eich lleoli yn Swyddfa'r sir gyda'r gofyniad i wneud archwiliadau mewn amrywiaeth eang o adeiladau cyhoeddus a masnachol; bydd hyn yn golygu gweithio tu mewn a thu allan.  Rhai oriau anghymdeithasol i wneud yr uchod pan fo'r angen.

# Manyleb y Person

## Cymwysterau, Gwybodaeth a Phrofiad

| |
|---|
| **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| Cwblhau'n llwyddiannus (neu y gallu i gwblhau yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod prawf) raglen hyfforddi, cymhwyster neu gwrs sydd wedi ei gydnabod gan y diwydiant Diogelwch Tân |
| Y gallu i ddeall a chymhwyso egwyddorion deddfwriaeth tân sy'n gysylltiedig gydag Iechyd a Diogelwch |
| Ymwybyddiaeth o weithgareddau a swyddogaethau craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn genedlaethol a lleol |
| Sgiliau technoleg gwybodaeth o safon dda |
| **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| Gwybodaeth flaenorol o/neu brofiad o Ddeddfwriaeth Tân i Fusnesau |
| Aelodaeth o gorff neu sefydliad proffesiynol sy'n gysylltiedig gyda thân |
| Profiad o ddelio gyda chyrff proffesiynol, sefydliadau ac adrannau awdurdod lleol |

## Sgiliau a Galluoedd

| **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
|---|
| Trwydded yrru lawn a chyfredol |
| Y gallu i ddehongli gwybodaeth ffisegol ac ysgrifenedig a defnyddio barn broffesiynol yn seiliedig ar hyfforddiant, gwybodaeth a phrofiad |
| Mae'r rôl yn gofyn i'r ymgeiswyr ddangos ymagwedd ragweithiol hunan gymhelliant, sy'n gallu gweithio fel rhan o dîm neu ar eu pennau eu hunain |
| Y gallu i adeiladu cysylltiadau gweithio effeithiol gydag unigolion a grwpiau mewnol ac allanol |
| Y gallu i flaenoriaethu gwaith a chwrdd â dyddiadau cau ac ymateb yn gadarnhaol o dan bwysau |
| Parodrwydd i fynychu gwrandawiadau yn y llys fel rhan o weithrediad gorfodi a chyfreithiol y Gwasanaeth |
| Wedi ymrwymo i weithio oriau hyblyg o fewn amodau'r gwasanaeth pan fo'r angen |
| Bodloni Gwiriad DBS (Syfaenol). |
| **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| Y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg (Lefel 4) Siarad a Gwrando – Yn gofyn eich bod yn medru:<br><br>Cynnal sgwrs estynedig hamddenol ynglŷn â gwaith neu roddi cyflwyniad gyda lefel dda o rwyddineb ac amrywiaeth mynegiant ond efallai y bydd angen troi i iaith arall i ateb cwestiynau na ddisgwyliwyd neu i esbonio pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol. Cyfrannu'n effeithiol i gyfarfodydd a seminarau yn eich maes gwaith chi. |

# Sgiliau Cymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, credwn y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ymwneud â bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn ymfalchïo ein bod wedi cymryd mater yr iaith o ddifrif ers blynyddoedd lawer. Drwy gydnabod ein dyletswydd foesol a chyfreithiol i amddiffyn etifeddiaeth ddiwylliannol yr ardal a chyfarfod â disgwyliadau'r gymuned leol, rydym hefyd yn cydnabod buddiannau cadarnhaol y gwasanaeth i weithredu ein holl fusnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Achub bywydau a lleihau risg yw calon ein gwaith – ac mae mater yr iaith yn hanfodol i lwyddiant hyn.

Yn ddelfrydol, y gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn rhugl yn y Gymraeg, ond byddwn yn ystyried ceisiadau gan unigolion sydd wedi ymrwymo i wella eu sgiliau iaith Gymraeg. Fel gwasanaeth cyhoeddus, gofynnwn i staff feddu ar sgiliau siarad Cymraeg sy'n gyfateb i lefel 2, fel y nodir isod. Os nad oes gennych chi'r sgiliau yma, byddem yn eich cefnogi i gyrraedd hyn o fewn 12 mis o ddechrau'r rôl.

| **Maes Sgil** | **Gofynion Safonnau'r Iaith Gymraeg** |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | • Ddeall rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith.<br>• Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion.<br>• Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd.<br>• Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio. |
| **Darllen** | • Ddeall gwybodaeth ffeithiol ac arferol a chynnwys gwybodaeth anarferol ar faterion ymwneud â'ch maes gwaith, e.e. mewn llythyrau safonol, pamffledi. |
| **Ysgrifennu** | • Ysgrifennu nodiadau syml, cofnodi gwybodaeth syml ar ystod eithaf cyfyng o faterion yn ymwneud â'ch profiadau personol neu o fewn eich maes gwaith. |

Lefel 4 yw gofynion yr iaith Gymraeg ar gyfer y swydd hon ac fe nodir y sgiliau gofynnol isod. Disgwylir y byddwch yn cyflawni hyn o fewn amserlen y cytunwyd arni, a byddwn yn eich cefnogi i gyflawni hyn.

| **Maes Sgil** | **Gofynion Safonnau'r Iaith Gymraeg** |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | • Cynnal sgwrs achlysurol estynedig ynglŷn â materion gwaith neu allu gwneud cyflwyniad gyda lefel dda o ruglder ac ystod mynegiant. Mae'n bosib y byddai angen i chi newid i iaith arall ar brydiau i ateb cwestiynau annisgwyl neu egluro pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol.<br>• Gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd a seminarau o fewn maes eich gwaith.<br>• Dadlau o blaid/yn erbyn achos. |
| **Darllen** | • Gallu darllen a deall gwybodaeth yn eithaf cyflym cyn belled nad oes defnydd o eirfa anarferol ac nad oes gwybodaeth gymhleth neu dechnegol o'i fewn. |
| **Ysgrifennu** | • Gallu paratoi llythyrau ffurfiol o nifer o fathau cyfarwydd megis ymholiad, cwyn, cais ac ymgeisio.<br>• Gallu gwneud nodiadau'n bur fanwl mewn cyfarfodydd neu arddywediad syml.<br>• Gallu ysgrifennu adroddiad /dogfen sy'n berthnasol i faes y swydd |

# Sut i ymgeisio

Mae'r ffurflenni cais i'w gweld ar dudalen Swyddi Gwag ein gwefan.

Dylid dychwelyd y ffurflenni cais ar e-bost i hrdesk@tangogleddcymru.llyw.cymru neu drwy gysylltu â'r Tîm Recriwtio ar 01745 535281 am wybodaeth bellach.

Gofynnir i chi beidio danfon eich CV gyda'r Ffurflen Gais gan mai dim ond y wybodaeth a roddir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei ddefnyddio wrth greu rhestr fer.

Os ydych chi'n awyddus i ni ystyried addasiad rhesymol, gadewch i ni wybod mewn da bryd, os gwelwch yn dda.

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais, gofynnir i chi ymgyfarwyddo gyda'r Disgrifiad Swydd a'r Manylion Person yn y pecyn gwybodaeth recriwtio fel eich bod yn deall y rôl a'r gofynion ynglŷn â chymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Mae eich cyfle o fod ar y rhestr fer am gyfweliad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwch ar eich ffurflen gais.

Sicrhewch eich bod yn anfon eich cais cyn y dyddiad cau gan nad yw ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r swydd hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, cysylltwch â Steven Roberts â'r 07920 455517